RIO TINTO

Y ffordd rydym ni'n gweithio

Hydref 2003
www.riotinto.com

Ein datganiad o arferion busnes

Rio Tinto

Mae Rio Tinto yn arweinydd byd-eang ym maes darganfod, cloddio a phrosesu adnoddau mwynol y ddaear. Trwy weithrediadau'r Grŵp ledled y byd, cyflenwir mwynau a metelau hanfodol sy'n helpu i ddiwallu anghenion byd-eang ac sy'n cyfrannu at welliannau mewn safonau byw. Mae Rio Tinto yn annog hunaniaethau lleol cryf, ac mae wedi datganoli ei athroniaeth rheoli er mwyn ymddiried cyfrifoldeb i'r gweithle.

Er mwyn cyflenwi'r enillion gorau i gyfranddalwyr dros amser, mae Rio Tinto yn mynd i'r afael â busnes y Grŵp mewn modd gyfrifol, sy'n ystyried y tymor hir. Canolbwyntiwn ar ddatblygu cyrff cynhyrchu mwynau yn weithrediadau mawr, hirhoedlog ac effeithlon, sy'n gallu cynnal eu mantais gystadleuol trwy gydol cylchdroeon eu busnes.

Ymhlith y cynhyrchion pwysicaf y mae aliwminiwm, copr, deimyntau, cynhyrchion at ddibenion ynni (glo ac wraniwm), aur, mwynau diwydiannol (boracs, titaniwm deuocsid, halen, talc a sircon), a mwyn haearn. Mae gweithgareddau'r Grŵp yn ymestyn dros y byd, ond fe'u cynrychiolir yn gryf yn Awstralia a Gogledd America, a cheir busnesau sylweddol yn Ne America, Asia, Ewrop a de Affrica.

Ble bynnag y mae Rio Tinto yn gweithredu, iechyd a diogelwch yw ein blaenoriaeth gyntaf. Ceisiwn gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy. Gweithiwn mor agos ag y bo modd â'r gwledydd a'r cymunedau yr ydym yn gweithredu ynddynt, gan barchu deddfau ac arferion. Byddwn yn lleihau effeithiau andwyol ac yn ymdrechu i wella pob agwedd ar ein perfformiad. Yr ydym yn cyflogi pobl leol ar bob lefel i sicrhau trosglwyddo buddion a gwella cyfleoedd mewn modd teg a chyfartal.

Mae ein llwyddiant fel busnes yn dibynnu nid yn unig ar ein sgiliau ac ar amrywiaeth asedau'r Grŵp, ond hefyd ar ein cyd-ymroddiad i fod yn bartner byd-eang dibynadwy ac yn gymydog lleol da.

Cynnwys

Ynglŷn â *Y ffordd rydym ni'n gweithio* 2

Synnwyr busnes da 3

Didwylledd ac atebolrwydd 4
Tryloywder 4
Gonestrwydd mewn busnes 4
Rheolaeth gorfforaethol 5
Rheoliadau mewnol a threfnau hysbysu 5

Polisïau corfforaethol 7
Cymunedau 7
Cyflogaeth 8
Yr amgylchedd 8
Hawliau dynol 9
Mynediad i dir 10
Iechyd galwedigaethol 10
Ymrwymiad gwleidyddol 11
Diogelwch 11
Datblygu cynaliadwy 11

Atodiadau 12
Rhai cytundebau rhyngwladol a gefnogir gan Rio Tinto 12
Canllawiau ategol Rio Tinto 13

Ynglŷn â *Y ffordd rydym ni'n gweithio*

Mae *Y ffordd rydym ni'n gweithio*, sef datganiad ymarfer busnes Rio Tinto, yn crynhoi egwyddorion a pholisïau'r grŵp ar gyfer pob gweithiwr. Fe'i cynlluniwyd i sicrhau ein bod oll yn ein gwaith bob dydd yn adlewyrchu'r safonau a'r gwerthoedd uchel a rennir gennym. Yn allweddol ymhlith y rhain y mae atebolrwydd, tegwch, gonestrwydd a didwylledd.

Mabwysiadwyd y polisïau yn *Y ffordd rydym ni'n gweithio* gan fwrdd Rio Tinto, yn dilyn ymgynghori eang yn fewnol ac yn allanol. Fe'u cyfathrebir i fusnesau'r Grŵp, ynghyd ag unrhyw arweiniad a chefnogaeth all fod yn angenrheidiol. Mae busnesau'r Grŵp wedyn yn eu rhoi ar waith trwy godau ymddygiad lleol ac yn hysbysu ynglŷn â'u gweithrediad.

Ers argraffiad cyntaf *Y ffordd rydym ni'n gweithio* ym 1997, mae disgwyliadau o gyfrifoldebau corfforaethol wedi cynyddu. Er nad yw ein gwerthoedd a'n hamcanion wedi newid, mae ein hymatebion wedi esblygu ac wedi cael eu datblygu ymhellach, ac fe'u hadlewyrchir yn yr argraffiad diwygiedig hwn yn 2003.

Wrth ei baratoi, cawsom eto fewnbwn mewnol sylweddol a sylwadau allanol defnyddiol, ac rydym yn ddiolchgar amdanynt. Byddwn yn parhau i fynd i'r afael â materion fel y maent yn codi i sicrhau bod *Y ffordd rydym ni'n gweithio* yn parhau i fod yn berthnasol.

Mae *Y ffordd rydym ni'n gweithio* yn berthnasol i bob busnes a reolir gan Rio Tinto. Fe'i cefnogir gan ddogfennau arweiniol penodol, sy'n cynnwys rhai ynglŷn â mecanweithiau sicrwydd a gwirio cydymffurfiad.

Nid rhestrau cynhwysfawr o bethau y dylid ac ni ddylid eu gwneud yw codau ymddygiad busnesau'r Grŵp. Maent yn gosod safonau ar gyfer ymddygiad da a threfnau ynglŷn â sut i ddelio â thor-rheolau, gyda chyfrifoldebau ac anogaethau ychwanegol ar gyfer rheolwyr a chanddynt lefel uwch o ddyletswydd gofal.

Mae Rio Tinto yn disgwyl i safonau uchel gael eu cynnal gan bartneriaid busnes, fel cwmnïau cysylltiedig neu fentrau ar y cyd nad ydym yn gyfrifol am eu gweithredu, yn ogystal â chan brif gontractwyr, cyflenwyr ac eraill y mae gennym gysylltiad sylweddol â hwy. Byddwn yn eu hysbysu ynghylch egwyddorion a pholisïau Rio Tinto a, lle'n briodol, yn gweithio gyda hwy i gefnogi eu camau i fabwysiadu polisïau sy'n cyd-fynd â'n rhai ni. Mae Rio Tinto yn barod i dynnu'n ôl o gysylltiadau busnes os nad yw partneriaid yn gweithredu yn ôl ein gwerthoedd.

Synnwyr busnes da

Mae Rio Tinto mewn busnes i greu gwerth trwy ddarganfod a datblygu dyddodion newydd, sydd gyda'r gorau yn y byd. Y nod yw gweithredu ac, yn y diwedd, cau gweithrediadau'r Grŵp mewn modd diogel, cyfrifol ac effeithlon. I wneud hynny, byddwn yn mynd i'r afael ag agweddau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ein holl weithgareddau mewn modd disgybledig ac integredig.

Byddwn yn dadansoddi cyfleoedd buddsoddi yn fanwl, yn rhoi strategaethau rheoli cadarn yn eu lle i gyflenwi buddion parhaol, ac yn delio ag unrhyw effeithiau andwyol. Darganfyddwn ddulliau i wella pob agwedd ar berfformiad y Grŵp er mwyn ei amlygu trwy osod neu adlewyrchu ymarfer da, a thrwy gyfrannu at y newid byd-eang i ddatblygu cynaliadwy.

Yr ydym yn cydnabod ac yn cynnwys disgwyliadau datblygol cwmnïau rhyngwladol o fewn terfynau ein gwerthoedd a'n rôl mewn busnes. Llunnir polisïau ac arferion Rio Tinto i gydnabod risgiau, osgoi niwed i bobl neu'r amgylchedd naturiol, a datblygu cysylltiadau effeithiol o fewn ac y tu allan i'r gweithle.

Trwyddynt, mae'r Grŵp yn cyfrannu at les cymunedau yng nghyffiniau ein gweithrediadau, ac yn darparu'r adnoddau sydd ar gymdeithas eu hangen. Mae'r dull hwn wrth wraidd llwyddiant y Grŵp mewn busnes.

Mae Rio Tinto yn cefnogi ac yn datblygu safonau ledled y Grŵp. Byddwn yn mabwysiadu mecanweithiau hysbysu, gwirio a sicrwydd mewnol ac annibynnol priodol, sy'n cyd-fynd â chyfrifoldebau byd-eang a lleol. Croesawn gyfleoedd i drafod a chysylltu â rhai sy'n rhannu diddordeb mewn gwella ein perfformiad yn barhaol trwy ddeall a dysgu oddi wrth ein gilydd.

Byddwn yn rhagweld, yn chwarae rhan mewn datblygu, ac yn buddsoddi mewn dulliau busnes arloesol. Gwneir hyn i sicrhau bod ymddygiad busnes yn cyd-fynd ag egwyddorion a dderbynnir yn gyffredinol o ran yr arferion rhyngwladol gorau, gan gynnwys rheolaeth gorfforaethol.

Didwylledd ac atebolrwydd

Byddwn yn cynnal busnes y Grŵp mewn modd cyfrifol a thryloyw, sy'n adlewyrchu buddion cyfranddalwyr, gweithwyr, y cymunedau yng nghyffiniau ein gweithrediadau a chwsmeriaid Rio Tinto, yn ogystal â rhai eraill a effeithir gan weithgareddau'r Grŵp.

Tryloywder

Rydym yn ymroddedig, mewn egwyddor ac yn ymarferol, i sicrhau gweithredu yn y modd egluraf bosib, sy'n cyd-fynd â rheolaeth dda a chyfrinachedd masnachol.

Mae Rio Tinto yn dosbarthu gwybodaeth ddealladwy mewn modd amserol ynglŷn â pherfformiad gweithredol a chyflwr ariannol y Grŵp. Byddwn yn gwirio ei chywirdeb yn fewnol, ac fel y bo'n briodol, yn annibynnol. Byddwn yn osgoi datgelu gwybodaeth yn ddetholus

Rhoddwn yr wybodaeth a fynnir i asiantaethau perthnasol yn lle mae busnesau'r Grŵp yn gweithredu. Fe'i lledaenir yn eang i rai sy'n delio mewn cyfrannau Rio Tinto, trwy'r cyfryngau yn ogystal ag yn uniongyrchol, a thrwy ein gwefannau ein hunain. Yn wirfoddol, rhoddwn ddata manwl ynglŷn â'n perfformiad cymdeithasol ac amgylcheddol mewn adolygiadau blynyddol ar wahân. Mae'r rhain yn cynnwys y Grŵp a phob un o fusnesau'r Grŵp, sy'n ymestyn ymhellach faint o wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus ac ansawdd yr wybodaeth honno.

Mae deunydd cyhoeddedig ar gael trwy wefan allanol Rio Tinto www.riotinto.com. Cysylltir hon a mewnrwyd y Grŵp â gwefannau eraill ei fusnesau, sy'n hwyluso mynediad i gyfoeth o wybodaeth ychwanegol, manwl ynglŷn â gweithrediadau lleol. Ar wefan rhyngrwyd Rio Tinto, fel y maent yn digwydd ac fel deunydd archif, ceir gwybodaeth ynglŷn â digwyddiadau pwysig, gan gynnwys cyflwyniadau am ganlyniadau ariannol a seminarau ar strategaethau a chyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol.

Mae Rio Tinto yn ceisio ac yn croesawu beirniadaeth adeiladol. Defnyddiwn drefnau cwyno wyneb yn wyneb, ysgrifenedig a ffurfiol o fewn ein gweithleoedd. Mae gennym hefyd fodd annibynnol a chyfrinachol ychwanegol o gyfathrebu a rhoi atborth ynglŷn â syniadau neu bryderon am unrhyw agwedd ar Rio Tinto neu ynghylch ymddygiad unigolion, heb ofni edliwiad, trwy system *Speak-OUT* y Grŵp.

Gonestrwydd mewn busnes

Ymgymerwn â busnes Rio Tinto gyda gonestrwydd a thegwch bob amser, yn adeiladu ar sylfaen o gydymffurfiad â deddfau a rheoliadau lleol perthnasol a safonau rhyngwladol.

Cefnogwn gystadleuaeth rydd a teg. Byddwn yn hyrwyddo trefn y gyfraith a safonau uchel y Grŵp ble bynnag yr ydym yn y byd. Cyflwynwyd rhaglen gennym ar gyfer sicrhau cydymffurfiad y mae angen i bob un o fusnesau'r Grŵp ei rhoi yn ei lle. Mae hon yn seiliedig ar system sy'n datblygu'n barhaol

o hyfforddiant, gweithgareddau monitro, a gwirio a phwyso a mesur ein trefnau.

Gwaherddir pob ffurf ar lwgrwobrwyo. Ni fyddwn yn addo, yn cynnig nac yn derbyn llwgrwobrwyon, neu unrhyw beth y gellid ei ystyried yn un, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

Ni fyddwn ond yn talu am wasanaethau busnes cyfiawn a hynny ar gyfradd sy'n adlewyrchu eu gwerth marchnadol. Gweithiwn gyda phartneriaid busnes, eu cynrychiolwyr a chanolwyr ar ôl eu hysbysu ynglŷn â pholisi Rio Tinto, a bodloni ein hunain na fyddent yn gwneud taliadau ar ran y Grŵp yn anuniongyrchol heb ganiatâd.

Datgelir unrhyw weithrediadau masnachol o bwys, neu gysylltiad y gellid disgwyl yn rhesymol iddo arwain at wrthdaro buddiannau, ond ymdrechwn i'w hosgoi. Nid yw anrhegion neu adloniant yn cael eu cynnig a'u derbyn dim ond at ddibenion cymdeithasol a busnes confensiynol, a bryd hynny dim ond ar lefel sy'n briodol i amgylchiadau lleol.

Rheolaeth gorfforaethol

Mae Rio Tinto yn ymroddedig i safonau uchel o reolaeth, atebolrwydd a chyfrifoldeb corfforaethol.

Mae holl gyfranddalwyr Rio Tinto Limited a Rio Tinto plc yn yr un sefyllfa economaidd a phe byddent yn dal cyfrannau yn Rio Tinto fel menter sengl. Byddent yn gwneud penderfyniadau ar faterion sy'n effeithio pob un ohonynt trwy drefn etholiadol ar y cyd.

Yr un cyfarwyddwyr sydd gan ddau gwmni Rio Tinto. Yn unol ag ymarfer gorau, mae'r bwrdd yn cynnwys cyfuniad o aelodau gweithredol a rhai nad ydynt yn weithredol, sy'n darparu cydbwysedd rhwng meddwl arloesol a gwybodaeth a phrofiad o fusnes.

Mae gan bob cyfarwyddwr fynediad llawn ac amserol i wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ymgymryd â'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau yn llawn ac yn effeithiol. Mae'r cyfarwyddwyr wedi sefydlu pwyllgorau i'r bwrdd sy'n hanfodol i reolaeth gorfforaethol dda, ymarfer gorau ac i reoli eu gweithgareddau. Y rhain yw y *Pwyllgor Enwebiadau*, y *Pwyllgor Archwilio*, y *Pwyllgor Tâl* a'r pwyllgor ar gyfer *Atebolrwydd Cyhoeddus ac Amgylcheddol*.

Mae diddordebau Cyfarwyddwyr yn Rio Tinto yn cael eu datgelu'n llawn. Gwaherddir cyfarwyddwyr a gweithwyr penodedig rhag delio mewn cyfrannau Rio Tinto mewn modd anturiol dros gyfnod byr ac yn ystod 'cyfnodau terfynu'. Ni chaiff unrhyw un ddatgelu gwybodaeth ynglŷn â phrisiau i eraill, neu ddelio mewn cyfrannau Rio Tinto eu hunain pan yn meddu ar wybodaeth o'r fath.

Rheoliadau mewnol a threfnau hysbysu

Darparwn adroddiadau a datganiadau ariannol sy'n rhoi barn wir a theg o'n busnes.

Mae sicrhau sylwedd yn hytrach na ffurf yn egwyddor hanfodol yn arferion hysbysu Rio Tinto. Byddwn yn mynd i'r afael â materion ariannol ac eraill gyda'r un manylrwydd.

Mae ein system rheoli mewnol yn adolygu rheoliadau ariannol, gweithrediadol a'r rheiny yng nghyswllt cydymffurfiad, yn ogystal â

Didwylledd ac atebolrwydd - parhad

threfnau rheoli risg. Mae hyn yn gyson ag asesu a lleihau risgiau mewn modd cyfrifol i ddarparu sicrwydd rhesymol yn erbyn camddywediad neu golled o bwys.

Bob blwyddyn, cwblheir holiadur manwl gan arweinwyr busnesau'r Grŵp i gadarnhau fod rheoliadau mewnol Rio Tinto yn gweithredu'n effeithiol ledled y Grŵp.

Defnyddiwn y polisïau cyfrifeg a hysbysu mwyaf priodol, sy'n cael eu rhoi ar waith yn gyson ac yn cael eu cefnogi gan farnau rhesymol a gochelgar. Byddwn yn paratoi datganiadau ariannol yn unol ag egwyddorion cyfrifeg a dderbynnir yn gyffredinol.

Mae ar Rio Tinto angen cyfarwyddwyr, uwch reolwyr, rheolwyr cyllid a staff eraill sy'n bwyllog wrth baratoi datganiadau ariannol. Disgwylir iddynt weithredu'n gywir gyda gonestrwydd, ac yn unol â safonau moesol eu proffesiwn neu fusnes.

Dylai unrhyw un sy'n dod yn ymwybodol neu sy'n amau fod rhywun yn gweithredu yn groes i'n hymrwymiadau, roi gwybod am hyn i uwch reolwyr neu i bwyllgor Archwilio Rio Tinto, fel y bo'n briodol. Gellir eu hysbysu yn uniongyrchol neu trwy raglen *Speak-OUT* Rio Tinto. Anogir pawb i wneud hyn.

Polisïau corfforaethol

Mae ar boblogaeth gynyddol y byd angen mwynau a metelau ar gyfer datblygu cynaliadwy. Yr ydym yn gwneud ein gorau i'w cloddio a'u cyflenwi mewn dulliau sy'n dod â buddion i'r genhedlaeth hon ac i rai'r dyfodol. Mae gwerthoedd a safonau cyffredin ar waith ble bynnag y mae'r Grŵp yn gweithredu. Byddwn bob amser yn ceisio parchu gwahanol ddeddfau, diwylliannau, traddodiadau, arferion gwlad ac arferion cyflogaeth sydd yn eu lle.

Yr ydym yn cydnabod fod rhagoriaeth mewn rheoli cyfrifoldebau iechyd, diogelwch, amgylcheddol a chymunedol Rio Tinto yn hanfodol. Yr ydym hefyd yn gwybod fod cysylltiadau gweithio da, yn fewnol ac yn allanol, yn hanfodol i lwyddiant parhaus y Grŵp. Ymdrechwn i ddeall cymunedau lleol, llywodraethau ac eraill yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, gan gynnwys cyrff nad ydynt yn rai llywodraeth, yn ogystal â rhwydweithio â hwy mewn modd adeiladol.

Mae polisïau Rio Tinto, sy'n gosod y safonau sydd wrth wraidd y modd yr ydym yn gweithredu, fel a ganlyn.

Cymunedau

Ein nod yw meithrin cysylltiadau parhaol â'n cymdogion a nodweddir gan barch o'r ddwy ochr, partneriaeth weithredol, ac ymroddiad tymor hir.

Mae rheoli cysylltiadau â'r gymuned yn effeithiol mor angenrheidiol i lwyddiant ein busnes ag y mae rheoli ein gweithrediadau. I berfformio'n dda, mae gofyn i bob un ohonom dderbyn cyfrifoldeb am gysylltiadau cymunedol. Darperir manylion gennym ynglŷn â threfniadau lleol mewn *cynlluniau cymunedol pum mlynedd* treiglol sy'n cael eu cyflwyno a'u diweddaru gan bob gweithrediad bob blwyddyn. Gosodir y cynlluniau o fewn cyd-destun y polisi hwn ac maent yn berthnasol trwy gydol cylchdroeon gweithgareddau'r Grŵp.

Mae parch o'r ddwy ochr yn dibynnu ar ein dealltwriaeth o'r materion sy'n bwysig i'n cymdogion, ac ar ddealltwriaeth ein cymdogion o'r hyn sy'n bwysig i ni. Ble bynnag yr ydym yn gweithredu, fe wnawn ein gorau i ystyried gwahanol ddiwylliannau, ffyrdd o fyw, treftadaeth a dewisiadau ein cymdogion, yn enwedig mewn ardaloedd lle nad oes fawr o ddatblygu diwydiannol. Mae ein gwaith yng nghyswllt cymunedau a'r amgylchedd yn cael ei gydlynu'n ofalus, ac mae'n ystyried canfyddiadau pobl o effeithiau a chanlyniadau ein gweithgareddau.

Hyrwyddir partneriaethau gweithredol gennym ar lefelau rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Maent yn seiliedig ar ymroddiad, ymddiriedaeth a didwylledd o'r ddwy ochr. Mae ein cysylltiadau â chymunedau

Polisïau corfforaethol - parhad

yn cynnwys ymgynghori yng nghyswllt agor cyfleusterau newydd, rhedeg rhai presennol a'u cau ar ddiwedd eu hoes gynhyrchiol. Wrth wneud hyn, byddwn yn cefnogi prosiectau cymunedol sy'n gallu wneud gwahaniaeth mewn modd cynaliadwy heb greu dibyniaeth. Byddwn hefyd yn cynorthwyo gyda gweithgareddau datblygu rhanbarthol a chyda hyfforddiant, cyflogaeth a chyfleoedd i fusnesau bach. Mewn gwledydd sy'n datblygu, gofynnir yn aml i ni gefnogi rhaglenni iechyd, addysgol ac amaethyddol ac, ar y cyd ag eraill, byddwn yn helpu yn lle mae'n ymarferol i wneud hynny.

Cyflogaeth

Yr ydym yn mynnu cysylltiadau gweithio diogel ac effeithiol ar bob lefel ledled y Grŵp. Tra'n parchu gwahanol ddiwylliannau, traddodiadau ac arferion cyflogi, yr ydym yn rhannu nodau cyffredin. Rhoddir sylw arbennig i'r mater o ddileu anafiadau yn y gweithle, ac rydym yn ymroddedig i werthoedd corfforaethol ac ymddygiad moesol da.

Mae Rio Tinto yn cyflogi ar sail gofynion swydd ac nid yw'n gwahaniaethu ar sail oedran, tarddiad ethnig neu gymdeithasol, rhyw, gogwydd rhywiol, gwleidyddiaeth neu grefydd. Gallwn wneud eithriad i ffafrio cyflogaeth leol lle mae deddfau lleol yn darparu ar gyfer hynny. Nid yw'r grŵp yn cyflogi llafur gorfodol, rhwymedig na phlant.

Hyfforddi gweithwyr i wneud gwaith, ac yna gweithio mewn dulliau diogel, iach a chyfrifol yn amgylcheddol yw'r flaenoriaeth gyntaf. Y tu hwnt i hynny, mae Rio Tinto yn credu mewn galluogi gweithwyr i ddatblygu'r hyn y gallent ei wneud i'r eithaf. Byddwn yn gwella ein sgiliau a'n galluoedd trwy adolygu perfformiad yn rheolaidd a chydnabod posibiliadau. Ymgymerir ag addysg a hyfforddiant fel y bo'n briodol, a chynigir cyfleoedd datblygu proffesiynol o fewn y Grŵp.

Mae Rio Tinto yn disgwyl i reolwyr fod yn fodelau o'r safonau ymddygiad uchaf. Yr ydym yn trin ein gilydd a'r rheiny y byddwn yn delio â hwy yn allanol gydag urddas, tegwch a pharch. Gwyliwn rhag aflonyddwch yn y gweithle ac ni fyddwn yn cam-drin nac yn camddefnyddio ein swyddi neu'n cyfleusterau at ddibenion personol. Yr ydym yn parchu ein hymrwymiadau i'n cydweithwyr a'n cyflogwr. Gweithiwn gyda'n gilydd o fewn a ledled busnesau, diwylliannau a gwledydd i godi perfformiad.

Mae codau ymddygiad busnesau'r Grŵp yn sefydlu amodau gwaith a threfnau disgyblaethol cadarn. Gweithreda'r Grŵp systemau tâl ac anogaeth teg a thryloyw. Mae Rio Tinto yn cydnabod hawl pawb i ddewis p'un a ydynt yn dymuno cael eu cynrychioli ar y cyd.

Yr ydym yn gweithredu yn ôl llythyren ac ysbryd Y *ffordd rydym ni'n gweithio* a'n côd ymddygiad.

Yr amgylchedd

Ble bynnag y bo modd, byddwn yn atal, neu fel arall yn lleihau, lliniaru ac yn adfer, effeithiau andwyol gweithrediadau'r Grŵp ar yr amgylchedd.

Mae rhagoriaeth mewn perfformiad amgylcheddol yn hanfodol i'n llwyddiant mewn busnes. Cydymffurfiad â phob deddf a rheoliad amgylcheddol yw'r sail yr ydym yn meithrin ein perfformiad amgylcheddol arni. Byddwn yn cefnogi ac yn annog gweithredu pellach trwy helpu i ddatblygu a rhoi ar waith systemau rheoli a gydnabyddir yn rhyngwladol, ynghyd ag ymrwymiadau gwirfoddol.

Yn yr un modd, byddwn yn mynd i'r afael â dealltwriaeth gynhwysfawr o gylch oes a'r defnydd diogel o'n cynhyrchion i sicrhau cyflenwi eu holl fanteision.

Byddwn yn datblygu safonau ac yn llunio systemau ledled y Grŵp i adnabod, asesu a rheoli risg amgylcheddol. Mae'r rhain yn berthnasol i bob cam yn y broses o archwilio a datblygu gweithrediadau, ac i'w rhedeg a'u cau. Maent hefyd yn berthnasol i'r gwaith o werthuso'r amgylchedd wrth sefydlu a chau gweithrediad er mwyn cyflawni gwelliant parhaus mewn perfformiad amgylcheddol. Yr ydym hefyd yn ymwneud â'r cymunedau yng nghyffiniau ein gweithrediadau, ynghyd â llywodraethau, cwsmeriaid, cyflenwyr ac eraill, i'r un diben.

Cawn sicrwydd ynglŷn â gweithrediad ein polisi amgylcheddol, yn fewnol ac yn allanol, trwy archwiliadau, adolygiadau ac adroddiadau rheolaidd. Mae pob busnes o fewn y Grŵp yn cynhyrchu adroddiad cymdeithasol ac amgylcheddol ar wahân ar gyfer ei gymunedau lleol.

Hawliau dynol

Cefnogwn hawliau dynol yn unol â'r Datganiad Byd-Eang ar Hawliau Dynol, ac mae Rio Tinto yn parchu'r hawliau hynny wrth gynnal gweithrediadau'r Grŵp ledled y byd.

Ceisiwn sicrhau fod presenoldeb Rio Tinto yn meithrin cysylltiadau cadarn ac yn osgoi gwrthdaro sifil ble bynnag yr ydym. Mae Rio Tinto yn parchu ac yn cefnogi urddas, lles a hawliau gweithwyr y Grŵp, ein teuluoedd a'r cymunedau yr ydym yn byw ynddynt, yn ogystal ag eraill a effeithir gan weithrediadau'r Grŵp.

Lle ceir bygythiad i'r hawliau hynny, ceisiwn gynnal safonau rhyngwladol ac osgoi sefyllfaoedd y gellid eu dehongli i fod yn cydoddef cam-drin hawliau dynol. Byddwn yn sicrhau na chaiff ein hoffer na'n cyfleusterau eu camddefnyddio yn y fath fodd ein bod yn mynd yn groes i'r hawliau hyn.

Mae trefnau'r Grŵp ar gyfer defnyddio staff diogelwch yn seiliedig ar egwyddorion hawliau dynol, ac maent yn cynnwys canllawiau a chyfyngiadau ar y defnydd o rym. Atgyfnerthir y trefnau hyn trwy hyfforddiant, ac maent yn berthnasol i staff diogelwch sy'n gweithio trwy gytundeb yn ogystal ag i weithwyr y Grŵp.

Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i gefnogi ymdrechion cadarnhaol i hyrwyddo dealltwriaeth ehangach o werthoedd hawliau dynol, yn enwedig lle maent yn cynorthwyo cymunedau lleol y Grŵp. Ceisiwn ymuno ag eraill i hybu cydymdrech ymarferol i hyrwyddo parch at hawliau dynol sy'n cyd-fynd â swyddogaeth busnes.

Polisïau corfforaethol – parhad

Mynediad i dir

Ceisiwn sicrhau ein bod yn cael cymaint o gefnogaeth ag y bo modd i'n cynigion trwy gydol cylch oes gweithgareddau'r Grŵp. Cyflawnir hyn trwy gydlynu ffactorau economaidd, technegol, amgylcheddol a chymdeithasol mewn proses integredig.

Byddwn yn cael mynediad i ac yn defnyddio tir, yn adfer effeithiau na ellir eu hosgoi, ac yn gweithio gyda chymunedau lleol i helpu â'u hanghenion yn y modd mwyaf effeithlon ac effeithiol ag y gallwn. Ym mhob achos, mae hyn yn cynnwys ymgynghori parhaol â phobl leol, awdurdodau cyhoeddus a rhai eraill a effeithir. Yr ydym yn derbyn y gall hyn weithiau arwain i beidio ag archwilio tir neu ddatblygu gweithrediadau, hyd yn oed os cafwyd caniatâd cyfreithiol i wneud hynny.

Byddwn yn asesu effeithiau ein gweithgareddau yn fanwl iawn o flaen llaw mewn ardaloedd o werth cadwraeth neu dreftadaeth uwch. Gweithiwn gydag eraill i gynllunio dulliau lliniaru a rheoli priodol, ac yna byddwn yn eu monitro i sicrhau dilyn ymarfer gorau.

Gall hawlio tir fod yn seiliedig ar ddeiliadaeth draddodiadol yn ogystal â chyfraith statudol. Gall fod gwahaniaeth hefyd rhwng polisïau defnydd tir lleol a chenedlaethol. Ein nod yw pontio bylchau sylweddol rhwng trefniadau deddfwriaethol a thraddodiadol trwy ddealltwriaeth mor llawn â phosibl o'r materion dan sylw.

Lle effeithir eiddo, bydd ei werth yn cael ei asesu, a iawndal priodol yn cael ei gytuno ar y cyd. Lle nad oes fframweithiau'n bodoli, gweithiwn i annog a helpu llywodraethau i roi prosesau ymgynghori priodol yn eu lle.

Yn ystod gweithrediadau cloddio, gallwn ddefnyddio tir nad oes ei angen yn ein gweithrediadau at amryw ddibenion. Ymhlith y rhain y mae tai, cyfleusterau addysgol, iechyd ac adloniadol, yn ogystal â rhai sy'n ymwneud â chynhyrchu bwyd, coedwigaeth, diogelu cynefinoedd a chadwraeth bioamrywiaeth.

Pan fo gweithrediadau'n cael eu cau, byddwn yn cwblhau'r gwaith o adfer tir a effeithiwyd gennym trwy ymgynghori â'n cymdogion ac ystyried deddfau a rheoliadau perthnasol, yn unol ag ymarfer amgylcheddol gorau.

Iechyd galwedigaethol

Ymdrechwn i ddiogelu ein hiechyd corfforol a'n lles yn y gweithle.

Mae gweithlu iach yn cyfrannu at lwyddiant busnes. Yr ydym yn ymroddedig i atal achosion newydd o afiechyd galwedigaethol. Mae gennym darged i gyflawni gostyngiad sylweddol yn yr achosion hyn flwyddyn ar ôl blwyddyn trwy adnabod, gwerthuso a rheoli peryglon yn y gweithle yn barhaol.

Yr ydym wedi datblygu set o safonau iechyd galwedigaethol craidd. Gweithredwn y safonau hyn ar y cyd ag addysg, hyfforddiant ac ymgorffori systemau a threfnau.

Mae proses sicrwydd, sy'n cynnwys archwiliadau, adolygiadau ac adroddiadau rheolaidd, yn mesur cydymffurfiad â'n polisi a'n safonau iechyd galwedigaethol.

Ymrwymiad gwleidyddol

Nid yw Rio Tinto, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, yn ymwneud â gwleidyddiaeth bleidiol nac yn gwneud taliadau i bleidiau gwleidyddol neu wleidyddion unigol.

Mae Rio Tinto yn cyflwyno barnau i lywodraeth ac eraill ynglŷn â materion sy'n effeithio buddiannau ei fusnes a rhai ei gyfranddalwyr, ei weithwyr ac eraill sy'n ymwneud â'n gweithgareddau. Trwy feithrin trafodaeth gyhoeddus o'r fath, byddwn yn cyfrannu at ddatblygu deddfwriaeth a rheolaeth gadarn sy'n berthnasol ac yn briodol i fuddion ein busnes.

Ni cheir unrhyw beth ym mholisi Rio Tinto sy'n ceisio cyfyngu ar hawl unigolion, sy'n gweithredu yn eu rhinwedd personol fel dinasyddion, i gymryd rhan yn y broses wleidyddol.

Diogelwch

Mae diogelwch yn werth craidd ac yn flaenoriaeth bwysig; ein nod yw cael dim anafiadau.

Mae ymddygiad pawb yn cyfrannu at weithle lle na cheir anafiadau. Yng nghyswllt safonau, canllawiau, systemau a threfnau cynhwysfawr Rio Tinto ledled y byd, mae'n ofynnol eu gweithredu'n llawn ac yn gyson, a bod atebolrwydd yn cael ei sicrhau.

Ochr yn ochr â hyn, yr ydym yn meithrin diwylliant diogelwch cefnogol sy'n mynnu arweiniad gweladwy, addysg a hyfforddiant parhaus, a lefel uchel o gyfranogiad gan bawb yn y gweithle.

Rhoddwn bwyslais digyfaddawd ar adnabod peryglon, asesu risgiau a rheoli risgiau. Byddwn yn mesur sicrwydd trwy brosesau archwilio a hysbysu gweithrediadol, corfforaethol ac allanol.

Datblygu cynaliadwy

Dylai busnesau, prosiectau, gweithrediadau a chynhyrchion Rio Tinto gyfrannu at y newid byd-eang i ddatblygu cynaliadwy mewn modd adeiladol.

Cyfrannwn at ddatblygu cynaliadwy trwy helpu i foddhau anghenion a dyheadau byd-eang a chymunedol, p'un a ydynt yn rai economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol. Mae hyn yn golygu ystyried datblygu cynaliadwy fel rhan annatod o'n cynlluniau busnes a'n prosesau gwneud penderfyniadau.

Trwy ganolbwyntio ar bobl, yr amgylchedd, a gwarchod adnoddau a systemau rheoli, gallwn reoli risgiau yn well yn ogystal â chreu dewisiadau busnes, lleihau costau, denu'r gweithwyr gorau, cael mynediad i farchnadoedd ac adnoddau newydd a chyflenwi cynnyrch gwell i'n cwsmeriaid.

Yn ymarferol, mae hyn yn dibynnu ar ymwybyddiaeth weithredol bob un ohonom o egwyddorion a pholisïau Rio Tinto, ynghyd â'n cefnogaeth iddynt.

Atodiadau

Rhai cytundebau rhyngwladol a gefnogir gan Rio Tinto

- **Australian Minerals Industry Code for Environmental Management**
  www.minerals.org.au/downloads/pdf/Code2000.pdf
- **Global Sullivan Principles of Social Responsibility**
  www.globalsullivanprinciples.org/principles.htm
- **International Chamber of Commerce Business Charter for Sustainable Development**
  www.iccwbo.org/home/environment/charter.asp
- **International Council on Metals and Minerals Sustainable Development Framework**
  www.icmm.com
- **International Labour Organisation Convention 169: Concerning Indigenous and Tribal Peoples in Independent Countries**
  www.unhchr.ch/html/menu3/b/62.htm
- **International Labour Organisation Declaration on Fundamental Principles and Rights at Work**
  www.ilo.org/public/english/standards/decl/declaration/text/tindex.htm
- **Organisation for Economic Cooperation and Development Convention on Bribery and Corruption**
  www.oecd.org/pdf/M00007000/M00007323.pdf
- **Organisation for Economic Cooperation and Development Guidelines for Multinational Enterprises**
  www.oecd.org/pdf/M00021000/M00021070.pdf
- **United Nations Universal Declaration of Human Rights**
  www.un.org/Overview/rights.html
- **United Nations Global Compact**
  www.unglobalcompact.org/
- **US/UK Voluntary Principles on Security and Human Rights**
  www.state.gov/www/global/human_rights/001220_fsdrl_principles.html
- **World Economic Forum Global Corporate Citizenship Statement**
  www.weforum.org/pdf/GCCI/GCC_CEOstatement.pdf

Canllawiau ategol Rio Tinto

- **Business integrity guidance**
- **Compliance guidelines**
- **Corporate governance guidelines**
- **Environment standards**
- **Financial disclosure guidelines**
- **Human rights guidance**
- **Occupational health standards**
- **Rules for dealing in Rio Tinto securities**
- **Safety standards**

Mae'r dogfennau hyn yn darparu canllawiau ychwanegol mewn meysydd polisi penodol, ac mae rhagor o adnoddau ar gael ar wefannau mewnrwyd a rhyngrwyd Rio Tinto.

Er hwylustod, defnyddiwn "Rio Tinto" i ddisgrifio Rio Tinto Limited a Rio Tinto plc a'u cwmnïau cysylltiedig, er y rheolir pob un o'r rhain yn annibynnol, a'u bod yn gweithredu ar wahân.
Mae Rio Tinto plc a Rio Tinto Limited yn cael eu rhestru fel dau gwmni o fewn un uned economaidd.

RIO TINTO

Mwynau a metelau i'r byd

Rio Tinto plc
6 St. James's Square
London SW1Y 4LD
UK

Ffôn: +44 (0)20 7930 2399
Ffacs: +44 (0)20 7930 3249

Rio Tinto Limited
55 Collins Street
Melbourne
Victoria 3001
Australia

Ffôn: +61 (0)3 9283 3333
Ffacs: +61 (0)3 9283 3707

Ymgynghorwyr dylunio Tor Pettersen & Partners.
Argraffwyd yn Lloegr gan The Beacon Press yn defnyddio eu technoleg *pure*print®.
© Rio Tinto plc a Rio Tinto Limited.
10/2003/WELSH